www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# Dydd Iau 7 Ionawr 2016 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Hyd:** 1 awr

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

**CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLI/GORUCHWYLIWR**

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno ailddefnyddio'r ddogfen hon.

© OCR 2016 [K/503/6025]
DC (LK) 125160

Mae OCR yn Elusen eithriedig

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth i Ddysgwyr**

Mae meddygon yn aml yn gweithio gyda'i gilydd mewn practis. Mae practisau meddygon yn cyflogi staff swyddfa sy'n gwneud tasgau gweinyddol. (Senario 1)

Os bydd argyfwng yn codi pan fydd y practis ar gau, gall cleifion ofyn am ymweliad cartref y tu allan i oriau. Mae practisau yn cyflogi gweithredwr ffôn y tu allan i oriau (*out-of-hours*) sy'n delio â'r ceisiadau hyn ac yn trosglwyddo'r manylion i'r meddyg sydd ar alwad. (Senario 2)

**Senario 1**

Caiff Practis Meddygon Appleside ei redeg gan dîm bach o feddygon. Mae'n gwasanaethu tua 10 000 o bobl ac yn cyflogi chwe aelod o staff gweinyddol, ac mae un o'r rhain yn gweithio fel Rheolwr y Swyddfa. Mae'r practis ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

Mae'n rhaid i bobl sydd eisiau cofrestru â'r practis lenwi holiadur ar bapur. Mae'r holiaduron sydd wedi'u llenwi yn galluogi'r practis i olrhain cofnodion meddygol blaenorol pob claf, yn ogystal â nodi unrhyw broblemau iechyd posibl eraill. Caiff copi digidol o bob holiadur ei greu a'i storio.

Caiff manylion pob claf eu storio mewn cronfa ddata. Pan fydd claf newydd yn ymuno â'r practis, mae un o'r staff gweinyddol yn ychwanegu ei ddata at y meysydd perthnasol ar y gronfa ddata.

Mae'r holl ddata sy'n cael eu cadw gan y practis yn eithriadol o bwysig. Mae Rheolwr y Swyddfa wedi sefydlu'r system gyfrifiadurol fel bod copi wrth gefn o'r holl ddata sy'n cael eu cadw ar y system yn cael ei greu bob nos. Mae copi wrth gefn o'r system hon yn cael ei wneud ar yriant caled allanol ar hyn o bryd, ond mae'r practis yn ystyried cyfryngau storio eraill a allai gael eu defnyddio i storio data y mae copi wrth gefn ohono yn cael ei wneud. Mae Rheolwr y Swyddfa wedi gosod meddalwedd gwrthfeirws ar yr holl gyfrifiaduron sy'n cael eu defnyddio yn y practis hefyd. Mae Rheolwr y Swyddfa wedi gosod y dewisiadau ar y feddalwedd gwrthfeirws fel ei bod yn diweddaru'n awtomatig.

Mae'r practis yn defnyddio ei gysylltiad rhyngrwyd band eang i ddarparu mynediad wifi yn yr ystafell aros fel bod cleifion yn gallu ei ddefnyddio â'u dyfeisiau eu hunain tra byddan nhw'n aros.

**Senario 2**

Mae meddyg newydd, Tamsin, newydd ymuno â'r practis. Mae Tamsin yn gweithio y tu allan i oriau unwaith yr wythnos. Mae hi'n cael gliniadur gan y practis, ac mae hi'n ei ddefnyddio i gael mynediad at gofnodion cleifion yn ystod ei hymweliadau. Oherwydd risgiau diogelwch, mae'n rhaid i Tamsin ddefnyddio cyfrinair cryf yn ogystal ag allwedd ddiogelwch USB i fewngofnodi ar ei gliniadur. Mae gan liniadur Tamsin yr un gosodiadau meddalwedd gwrthfeirws â phob cyfrifiadur arall sy'n cael ei ddefnyddio yn y practis.

Unwaith y mis, mae'n rhaid i Tamsin ddychwelyd ei gliniadur i Reolwr y Swyddfa ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd (*routine*). Mae Rheolwr y Swyddfa yn defnyddio rhai o'r offer system ar y gliniadur ar gyfer hyn.

Fel cydweithiwr newydd, mae'r practis wedi gofyn i Tamsin gynnig awgrymiadau a fyddai'n gwneud Practis Meddygon Appleside yn fwy effeithlon. Mae hi wedi awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio ffurflen ddigidol yn lle'r holiadur ar bapur sy'n cael ei ddefnyddio i gasglu manylion cleifion.

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r defnydd o systemau gwybodaeth mewn practis meddygon, gan gynnwys systemau sy'n cynorthwyo meddygon sy'n gorfod ymweld â chartrefi cleifion.

Dylai hyn gynnwys:

- dulliau i allu trosglwyddo manylion am ymweliadau brys y tu allan i oriau i'r meddyg ar alwad
- dulliau i allu casglu data oddi wrth gleifion a manteision ac anfanteision y rhain
- defnyddio cronfa ddata, gan gynnwys ffurflenni, ymholiadau ac adroddiadau
- risgiau posibl i ddata yn sgil rhoi gliniaduron i feddygon sydd â mynediad at gofnodion cleifion a dulliau a fyddai'n diogelu gliniaduron rhag mynediad heb awdurdod
- y caledwedd a'r feddalwedd sy'n cael eu defnyddio gan staff gweinyddol.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- effeithiau posibl darparu mynediad at wifi mewn sefydliad sy'n dal data sensitif
- y defnydd o'r offeryn system dad-ddarnio (*defragmentation system tool*), ac o offer system eraill, i gyflawni tasgau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfrifiaduron
- yr amrywiaeth o ddyfeisiau a chyfryngau sydd ar gael ar gyfer storio data a manteision ac anfanteision pob un.

© OCR 2016

www.xtrapapers.com



OCR
Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2016